



Economi a Chyflogaeth

Papur Testun Rhif 8 – Crynodeb

Cyflwyniad

Dylai'r system gynllunio gynorthwyo twf economaidd a chyflogaeth. Mae gan y cynllun datblygu rôl sylfaenol i'w chwarae wrth ddarparu ac annog datblygiad cyflogaeth er mwyn adfywio ac ehangu'r economi lleol ac ysgogi cyfleoedd cyflogaeth.

Cyd-destun

Mae Sir y Fflint yn ganolbwynt allweddol i economi ranbarthol ehangach gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr, gan ddarparu, er enghraifft, swyddi gweithgynhyrchu 'gwerth uchel' ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a Brychdyn. O ganlyniad mae Sir y Fflint yn gwneud cyfraniad pwysig i economi Cymru yn ogystal â'r DU. Ond mae'n bwysig iawn fod yr economi yn parhau i ddatblygu ei gryfderau drwy wella safon a gwerth sectorau presennol a gwneud y gorau o'i fanteision amgylcheddol a daearegol. Dywed Cynllun Gofodol Cymru y dylid canolbwyntio ar ddatblygu sectorau allweddol presennol megis gweithgynhyrchu gwerth uchel.

Caiff pwysigrwydd is-ranbarthol Sir y Fflint ei arddangos drwy'r statws Ardal Fenter sydd wedi'i roi i'r ardal o Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, tua'r de-ddwyrain i Ystad Ddiwydiannol Pernarlâg. Gyda statws Ardal Fenter daw cymhelliant ariannol a chwmpas ar gyfer system gynllunio. Yng nghyfnod dechreuol y Cynllun dylai ddarparu ysgogiad mawr i economi'r Sir.

Rôl y Cynllun

Un o brif amcanion y Cynllun fydd datblygu gweledigaeth economaidd gyraeddadwy a chynaliadwy. Rhaid i'r weledigaeth hefyd fod yn gydnaws ag elfennau eraill yn y Cynllun megis tai a thrafnidiaeth.

Dylai'r weledigaeth economaidd osod Sir y Fflint yn ei gyd-destun rhanbarthol / is-ranbarthol ehangach i sicrhau fod gweledigaethau economaidd yn gyson ac yn ategu ei gilydd. Dylai gweledigaeth economaidd y Cynllun adlewyrchu dyfodol economaidd ansicr drwy gydnabod amhendantwydd allweddol a gosod dulliau mewn lle i ddarparu hyblygrwydd i addasu i amgylchiadau newidiol. Fodd bynnag, bydd angen iddo hefyd ddatblygu'r ysgogiad a grëir gan yr Ardal Fenter.

Cynlluniau a Strategaethau Allweddol ar gyfer Cyflogaeth a'r Economi

- Cymru'n Ennill, Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol (2002)
- Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd (Gorffennaf 2010)
- Cymru'n Un; Cenedl Un Blaned – Cynllun Datblygiad Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru (Mai 2009)
- Cynllun Datblygu Gwledig Cymru (2007-2013)
- Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012) (Llywodraeth Cymru)
- Nodyn Cyngor Technegol Drafft (TAN) 23 Datblygiad Economaidd (Llywodraeth Cymru 2013)
- Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru – Uchelgais Economaidd, Strategaeth Newid

- 2012
- Strategaeth Gofodol Is-ranbarthol Gogledd-ddwyrain Cymru / Gorllewin Swydd Caer 2004 – 2021 (2006)
- Adolygiad Tir Cyflogaeth Cyngor Sir y Fflint (2009)

Tueddiadau

Mewn cynlluniau datblygu blaenorol daeth yn arfer i or-neilltuo tir cyflogaeth er mwyn darparu ar gyfer ystod o safleoedd cyflogaeth yn ôl lleoliad, maint a math er mwyn darparu rhywfaint o hyblygrwydd. Mae angen cynnal adolygiad cadarn o safleoedd presennol ochr yn ochr ag asesiad o gyfanswm a mathau o safleoedd sy'n debygol o fod yn ofynnol dros gyfnod y Cynllun, er mwyn pennu a yw safleoedd presennol yn dal i fedru diwallu anghenion cyflogwyr modern.

Materion yr eir i'r afael â nhw yn y Cynllun

- sicrhau sylfaen dystiolaeth ddiweddar a phriodol i osod gweledigaeth economaidd ar gyfer ardal y Cynllun;
- rhagolwg mwy cadarn o ddarpariaeth tir at ddibenion cyflogaeth;
- sicrhau fod safleoedd cyflogaeth presennol yn cael eu diogelu rhag datblygiadau amhriodol;
- darparu'r swm cywir o dir a chymysgedd o safleoedd i ddiwallu galw'r farchnad;
- canfod a oes angen lleoliadau penodol ar gyfer diwydiannau cymdogion gwael;
- ceisio hyrwyddo a hwyluso datblygiad a fydd yn darparu buddion adfywio;
- blaenoriaethu safleoedd sy'n darparu cyfleoedd priodol am swyddi a hyfforddiant i gymunedau difreintiedig;
- sicrhau fod polisiâu sy'n seiliedig ar feini prawf yn cael eu cynnwys i ymdrin â safleoedd sydd heb eu neilltuo a helpu i ymateb i newidiadau annisgwyl;
- caniatáu ar gyfer datblygiad economaidd newydd mewn a gerllaw aneddiadau gwledig a nodi safleoedd addas drwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar feini prawf

- annog arallgyfeirio ffermydd a chyfleoedd datblygu gwledig;
- nodi ardaloedd gwarchod o amgylch sefydliadau sydd â sylweddau peryglus a diogelu gallu sefydliadau presennol i weithredu neu ymestyn drwy atal datblygiad cynyddrannol defnyddiau sy'n agored i niwed mewn safleoedd tebyg ac yn yr ardal gyfagos.

Polisiâu / Cynigion ar gyfer Defnydd Tir Posibl

Roedd y CDU yn cynnwys 7 o bolisiâu a chynigion yn y bennod 'Cyflogaeth'. Mae nifer o'r rhain yn bolisiâu manwl ac er bod llawer ohonynt yn cael eu defnyddio, mewn sawl achos mae arweiniad ar gael mewn rhannau eraill o'r Cynllun, neu byddai modd i'r polisiâu gael eu cyfuno i fod yn fwy manwl a chanolbwyntiedig. Yn dilyn asesiad o bolisiâu'r CDU cynigir fod y polisiâu a'r cynigion allweddol yn ymwneud yn fras â:

- Neilltuo safleoedd unigol ar gyfer cynigion cyflogaeth
- Dynodi 'Prif Ardaloedd Cyflogaeth' (PAC) i nodi'n gyffredinol ble fydd datblygiad cyflogaeth newydd yn dderbyniol.
- Darparu arweiniad ynglŷn â lleoliad datblygiadau cyflogaeth eraill y tu allan i ardaloedd a neilltuwyd a PACoedd, h.y. o fewn ffiniau aneddiadau, neu drwy drosi adeiladau presennol y tu allan i ffiniau aneddiadau a datblygu tir ar ymyl aneddiadau gwledig.
- Darparu arweiniad ar gynigion arallgyfeirio ffermydd bach.
- Ymestyn gweithrediadau cyflogaeth presennol.
- Diogelu tir ac adeiladau cyflogaeth rhag dibenion eraill megis tai newydd, cynigion manwerthu a masnachol.

Tystiolaeth Bellach Ofynnol

- Adolygiad o Dir Cyflogaeth
- Rhagolygon Economaidd